Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cynllun gweithgaredd

# Argyfwng Hinsawdd

| | |
|---|---|
| **Yr amser sydd ei angen ar gyfer y gweithgaredd** | **Hyd at 60 munud** |
| **Lleoliad** | **Dan do** |

## Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn annog dysgwyr i ystyried sut mae prosesau naturiol a gweithgareddau dynol yn effeithio ar ein hinsawdd.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gwarchod aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd i wella llesiant Cymru a darparu dyfodol gwell i bawb.

## Cwricwlwm i Gymru

| Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Iechyd a Lles | Y Dyniaethau | Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu |
|---|---|---|---|
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. |
| • **Yr hyn sy'n bwysig** Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | | | |

## Amcanion

Erbyn diwedd y gweithgaredd hwn, bydd dysgwyr yn gallu:

- Nodi ystod o brosesau naturiol sy'n effeithio ar yr hinsawdd
- Nodi ystod o weithgareddau dynol sy'n effeithio ar yr hinsawdd
- Datblygu barn ystyriol am lefel yr effaith y mae'r prosesau a'r gweithgareddau hyn yn ei chael ar yr hinsawdd

## Adnoddau ac offer

- **Ffilm – Yr Argyfwng Hinsawdd**
- **Nodyn Gwybodaeth – Ffilm am yr Argyfwng Hinsawdd**

## Yr hyn sydd angen ei wneud

Mae'r gweithgaredd hwn yn herio dysgwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i nodi ac archwilio themâu ynghylch effeithiau dynol ar yr hinsawdd.

Gallwch ymgorffori'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol trwy ofyn i'ch dysgwyr gwblhau ymchwil ar-lein i gynorthwyo'r drafodaeth.


### Gweithgaredd Un

1. Dechreuwch y sesiwn gan chwarae'r ffilm – yr Argyfwng Hinsawdd, sy'n dangos casgliad o ddelweddau.
2. Gofynnwch i'ch dysgwyr beth yw'r prif fater sy'n cael ei bortreadu? Gellir cyflwyno hyn fel sesiwn holi ac ateb, mewn grwpiau bach neu fel grŵp cyfan, i ddod o hyd i'r hyn y gallai fod – datganodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd yn 2019.

   Beth yw barn eich dysgwyr am sut beth yw argyfwng hinsawdd? Beth allai'r argyfwng hinsawdd ei olygu iddyn nhw yn unigol, i Gymru, ac i'r byd ehangach? Ble gallant gael rhagor o wybodaeth? Rhowch amser i'ch dysgwyr gwblhau ymchwil ar-lein.
3. Gwyliwch y ffilm am yr eildro. A all eich dysgwyr nodi pa faterion sy'n brosesau naturiol a pha rai sy'n cael eu hachosi gan effaith ddynol?
4. Gan weithio gyda phartner, a allant ddewis y naw mater pwysicaf iddynt sy'n cael eu portreadu?

### Gweithgaredd Dau

1. Diemwnt Naw – Graddiwch y naw mater unigol a ddewiswyd gan y pâr. Beth yw safbwyntiau personol dysgwyr ar y materion hyn a threfn eu pwysigrwydd?
2. Gan weithio gyda'u partner, gofynnwch i'ch dysgwyr drafod pa drefn y gwnaethant ei defnyddio yn eu sgoriau diemwnt a pham. Beth yw'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y parau? Ystyriwch pam y gall safbwyntiau fod yn wahanol.




### Gweithgaredd Tri

1. Gan ystyried y tri phrif fater o'u gweithgaredd graddio diemwnt unigol, a all eich dysgwyr egluro'r cydgysylltiadau rhyngddynt?
2. Gofynnwch i'ch dysgwyr egluro eu tri phrif ddewis, gan ddangos eu dealltwriaeth a'u synthesis o'r materion hyn. Gellir cwblhau hwn fel gwaith ysgrifenedig neu ar lafar.
3. Gofynnwch i'ch dysgwyr ystyried yr hyn y gallant ei wneud fel dinasyddion byd-eang i helpu i leihau effaith y materion hyn? Rhowch amser i'ch dysgwyr gwblhau ymchwil ar-lein.
4. Gofynnwch i'ch dysgwyr pa rôl sydd gan y canlynol mewn perthynas â'r materion hyn:
   - Sefydliadau byd-eang
   - Llywodraethau
   - Cynghorau lleol
   - Asiantaethau'r amgylchedd

A all y cyrff hyn fod yn llwyddiannus heb gymorth dinasyddion unigol?

Pam? Rhowch amser i'ch dysgwyr gwblhau ymchwil ar-lein.

A oes rhywbeth y hoffech weld y sefydliadau/cyrff hyn yn gwneud mwy ohono? Rhywbeth nad ydynt yn ei wneud ar hyn o bryd. Pe baent yn Brif Weinidog, pa dri cham gweithredu fyddent yn eu deddfu?

## Cwestiynau allweddol a awgrymir

- Beth mae'n ei olygu i fod yn ddinesydd byd-eang?
- Pa brosesau naturiol sy'n llywodraethu ein hamgylchedd naturiol?
- Pa effeithiau mae bodau dynol yn eu cael ar y byd naturiol?
- Beth yw eich pryderon mwyaf am yr argyfwng hinsawdd?
- Sut y gallwn ddefnyddio a rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy?
- Beth allwch chi ei wneud fel unigolyn?

## Addasiadau ar gyfer gwahanol anghenion neu alluoedd

### Mwy o gymorth

- Nodwch lai o faterion.
- Cwblhewch y gweithgareddau mewn grwpiau mwy, dan arweiniad oedolion.
- Cwblhewch weithgaredd 1 a/neu 2 yn unig.

### Mwy o sialens

- Ymchwiliwch i'r argyfyngau hinsawdd a natur.
- Darganfyddwch fwy am y rôl sydd gan sefydliadau byd-eang mewn lliniaru effeithiau dynol ar yr amgylchedd.
- Cwblhewch bob un o'r tri gweithgaredd.

## Gweithgareddau dilynol/tasgau estynedig

Rhowch gynnig ar ein gweithgareddau eraill:

- **Cynllun gweithgaredd – Ymaddasu i newid hinsawdd**
- **Cynllun gweithgaredd - Bwyta dros Gymru**

## Gwybodaeth ychwanegol

Dysgwch fwy am waith Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd ar ein gwefan: **www.cyfoethnaturiol.cymru**

### Chwilio am ragor o adnoddau dysgu, gwybodaeth, neu ddata?

Cysylltwch ag: **addysg@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
neu ewch i **https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu**

Am fformatau gwahanol; print bras, neu ieithoedd gwahanol, cysylltwch ag:
**ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk**
**0300 065 3000**



Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government